Cynllunio Trawsnewid -

Hawliau, Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

14+

Trawsnewis (Pontio)

Beth nesaf?

Rhif Elusen Gofrestredig: 1027599 / Rhif Cwmni Cyfyngedig: 2832114
Noddwyr: Glenys Kinnock ASE / Dr Phillipa Russell CBE / Richard Mylan
Rydym yn cael ein cefnogi gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Trawsnewid?

Trawsnewid yw pan fydd person ifanc yn dechrau meddwl am adael ysgol i fynd i goleg, i weithio, i hyfforddi neu rywbeth arall. Tua'r adeg yma, bydd yn rhaid i'r person ifanc a'r teulu gymryd penderfyniadau ynghylch eu dyfodol. Gall hynny fod yn eithriadol o gymhleth i berson ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae'n bwysig fod pawb sydd â rhan mewn cynllunio ar gyfer pontio yn ymwybodol o egwyddorion Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002). Mae'r Rheoliadau'n dweud bod yn rhaid paratoi cynllun pontio yn ystod adolygiad blynyddol blwyddyn 9 ar gyfer pob person ifanc sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Amcan y cynllunio pontio yw helpu'r person ifanc i baratoi ar gyfer bywyd llwyddiannus y tu allan i'r ysgol. Mae'r Côd Ymarfer yn dweud "Mae'n rhaid i'r Adolygiad Blynyddol ym mlwyddyn 9 ac unrhyw adolygiad blynyddol ar ôl hynny gynnwys llunio ac yna adolygu o'r cynllun pontio nes bod y person ifanc yn gadael yr ysgol". Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i unrhyw adolygiad blynyddol ar ôl blwyddyn 9 gynnwys gwybodaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer pontio. Dylai'r cynllun pontio gasglu gwybodaeth gan wahanol bobl yn ac o'r tu allan i'r ysgol sydd yn ymwneud â'r person ifanc. Mae'n rhaid i'r Pennaeth sicrhau fod y 'Cynllun Trawsnewid' yn cael ei baratoi ar y cyd â Gyrfa Cymru.

Y cyfarfod trawsnewid

Mae Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, yn dweud: "Mae'n rhaid i'r rhai sydd â rhan mewn adolygiad blynyddol trawsnewid gynnwys:

- Rhiant neu ofalwyr y person ifanc
- Ymgynghorydd personol Gyrfa Cymru
- Athro perthnasol
- Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig
- Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol
- Unrhyw berson y mae'r Awdurdod Lleol yn ddymuno ei gael yno
- Y person ifanc
- Seicolegydd Addysgol yr Awdurdod Lleol
- Cynrychiolydd yr Awdurdod Iechyd
- Pobl broffesiynol eraill sydd â rhan agos

Mae'n rhaid i'r Pennaeth wahodd cynrychiolydd o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gellir manteisio ar, a chyfrannu at, unrhyw asesiad statudol tebyg sy'n cael ei gynnal.

Mae'n rhaid i'r Pennaeth hefyd sicrhau bod darparwyr eraill, megis yr awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd, yn ymwybodol o'r trefniadau sydd i'w dilyn ar gyfer yr adolygiad blynyddol a'u bod yn derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod adolygu blynyddol yn ôl y gofyn. Dylai pawb sydd â rhan sicrhau fod y broses bontio'n:

GYFRANOGOL: gan gynnwys y person ifanc mewn ffordd ystyriol gan fod barn a dyheadau'r person ifanc yn greiddiol i'r broses.

HOLISTIG: bydd dyheadau ac anghenion y person ifanc yn effeithio ar bob agwedd o fywyd y person ifanc hwnnw yn y dyfodol ac mae'n rhaid cael dulliau holistig o gynllunio a darparu cefnogaeth.

CEFNOGOL: prif ddiben y broses trawsnewid ac adolygu blynyddol, statudol, yw cefnogi pobl ifanc, eu rhieni, eu gofalwyr a'r bobl broffesiynol sy'n gweithio â nhw i gymryd penderfyniadau ynghylch rhan nesaf eu bywyd.

ESBLYGOL: dim ond camau mewn pontio pobl ifanc i fod yn oedolion yw adolygiad blwyddyn 9 maen nhw'n rhan o broses lawer mwy sy'n esblygu'n raddol.

CYNHWYSOL: fel rhan o ddod yn hollol gynhwysol, dylai ysgolion sicrhau fod eu rhaglenni addysgu a chanllawiau gyrfa yn ffurfio rhan o'u proses cynllunio pontio a'u bod yn cyfarfod â gofynion eu holl ddisgyblion.

CYDWEITHIO: mae cynllunio trawsnewid effeithiol yn gofyn i staff dysgu, rhieni a phobl broffesiynol o asiantaethau eraill weithio'n agos â'i gilydd.

Llinell gymorth
0845 120 3730
www.snapcymru.org

SNAP Cymru, 10 Coopers Yard,
Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Ffôn: 029 2038 4868 Ffacs: 029 2034 8998